

Siarad ynglŷn â dysgu – ydym ni wir?¹

Ydych chi wedi sylwi ar rywbeth sy'n digwydd weithiau mewn sgysiau sy'n amcanu sôn am ddysgu? Yn aml maen nhw'n llithro i ryw ffocws gwahanol. Felly wrth i ni geisio creu gofod i feddwl am ddysgu, bydd amryw o "llowcwr gofod" yn llenwi'r lle. Mae'n bwysig i ni nodi hyn, oherwydd efallai y bydd angen i ni eu cadw i'r naill ochr er mwyn trafod dysgu. Y tri dihiryn pennaf yw:

1. Addysgu

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae ymadroddion fel "polisiau dysgu ac addysgu" neu "strategaethau dysgu ac addysgu" yn cael eu defnyddio fwyfwy. Ond o graffu'n fanylach awgrymir efallai y byddai "addysgu ac addysgu" yn well dehongliad, gan mai bach iawn o sylw gwirioneddol a delir i ddysgu. Yn aml hefyd yngenir yr ymadrodd fel "addysgu-a-dysgu", braidd fel "pysgod-a-sglodion" — prin fod yr "a" i'w glywed, ond mae'n cynrychioli her a chyflawniad yr alwedigaeth. Mae'r cysylltiadau rhwng dysgu ac addysgu yn niferus a chymhleth. Dyw dysgu ar lefel uchel ddim yn digwydd trwy'n bod ni'n dysgu ei hochor hi.

Beth sy'n digwydd i'ch ffordd o feddwl wrth fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn, tybed: "pa un sy'n digwydd amlaf yn eich barn chi – addysgu heb ddysgu neu ddysgu heb addysgu?"

2. Perfformiad

Nid dysgu yw "perfformiad" er y gall ddatblygu o ddysgu. Mae gwleidyddion a gwneuthurwyr polisi wedi gostwng nod ysgolion i ddeilliannau mesuradwy cyfyng eu natur: tablau perfformiad, tâl yn ôl perfformiad, rheoli perfformiad. Yng nghyfyngder eu byd bach eu hunain, maen nhw'n creu ac yn dosbarthu rhestrau a chaiff pawb eu barnu yn ôl y rhestrau hynny. Er mwyn cyflawni cydymffurfiaeth ychwanegir rhyw arlliw o ofn ac o dan bwysau o'r fath bu perygl enbyd bod athrawon yn llithro i'r fagl o drosglwyddo hynny. Cafodd hyn ei fodelu gan y Prif Weinidog pan ddywedodd "Rydym yn rhoi athrawon o dan bwysau sylweddol, ac ry'm ni'n gwneud hynny am reswm sylweddol: mae 'na lawer o bobl yn ein rhoi ni o dan bwysau" (2 Chwef 2002). O dan amodau pwysau a chydymffurfiaeth mae rhai yn sôn am gysondeb fel pe bai'n rhyw fath o nod. Ac eto ni ddylai addysg fod yn fater o gysondeb: golyga cysondeb eich bod chi'n gwybod fory'r hyn rydych chi'n ei wybod heddiw - ac fe allai fod yn gyson wael.

Mae'n hanfodol bwysig i weld y gwahaniaeth rhwng dysgu a pherfformiad a byddwn yn mynd i'r afael â hyn yn nes ymlaen. Yn fyr, mae'r dystiolaeth yn dangos fod ffocws ar berfformiad yn gallu gostwng perfformiad: mae dysgwyr yn datblygu syniadau negyddol ynglŷn â'u cymhwysedd, maen nhw'n ceisio cymorth yn llai aml, yn defnyddio llai o strategaethau, ac yn cael eu trefnu gan yr union farnau sy'n eu bychanu. Ac mae'r dystiolaeth yn dangos y gall ffocws ar ddysgu wella perfformiad.

3. Gwaith

Clustfeiniwch mewn unrhyw ystafell ddosbarth: "bwrw 'mlaen gyda dy waith". "gwaith cartref", "cynlluniau gwaith", "wyt ti wedi gorffen dy waith?". Dyma'r disgwrs sy'n gorlywodraethu dros fywyd yn yr ystafell ddosbarth. Ond fe all arwain at sefyllfa o waith diystyr, fel pan fydd pobl yn sôn am fod "ar ben" eu gwaith heb asesu ansawdd y dysgu neu'r ymgysylltiad. Mae modd mynd i'r afael yn ddigon effeithiol gyda'r llowciwr gofod "gwaith" – yn arbennig trwy gydweithredu. Cytunodd athrawes yn Greenwich gyda'i dosbarth y byddent yn ceisio troi'r gair "gwaith" yn "ddysgu". Roedd y canlyniadau'n wefreiddiol, gan arwain at lawer rhagor o ymgysylltiad. Rhowch gynnig arni.



Ydych chi'n adnabod y "llowcwr gofod" yma?
Sut maen nhw'n llwyddo i lowcio'r gofod? Beth sy'n rhoi help llaw iddyn nhw?



Meddyliwch am adegau pan rydych wedi llwyddo i ffrwyno effeithiau negyddol y llowcwr gofod. Beth wnaethoch chi? Beth wnaeth pobl eraill?

¹ From Watkins C (2003) *Learning: a sense-maker's guide*, London: Association of Teachers and Lecturers